

Presgripsiynu cymdeithasol a'r celfyddydau yng Nghymru: dysgu yn sgîl rhaglen 'HARP'

Cyflwyniad

Gallai gweithgareddau celfyddydol chwarae rhan hynod bwysig wrth leddfu'r pwysau parhaus ar y GIG drwy bresgripsiynu cymdeithasol. Yn [HARP - Iechyd, y Celfyddydau, Ymchwil, Pobl](#), sef partneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, Nesta a'r Lab (Prifysgol Caerdydd), rydyn ni'n ymchwilio i'r broses o greu, datblygu a dysgu am arloesedd creadigol ac effeithiol sy'n cefnogi iechyd a lles pobl yng Nghymru drwy gefnogi [13 o brosiectau partneriaeth yn y celfyddydau a maes iechyd](#) a bydd cyfleoedd ariannu, hyfforddi a rhwydweithio ar gyfer y rhain.


Mae llawer o brosiectau HARP yn canolbwyntio ar bresgripsiynu cymdeithasol, ac yn sgîl ein gwaith gyda nhw rydyn ni'n gweld y themâu a'r argymhellion canlynol sy'n deillio o'n gwaith. Sylwer bod yr argymhellion hyn yn deillio'n uniongyrchol o Nesta felly er eu bod yn cael eu hysbysu yn sgîl ein gwaith gyda thimau HARP, nid ydym yn siarad drostyn nhw. Rydyn ni hefyd wedi ymateb yn uniongyrchol i rai o'r cwestiynau a ofynnwyd yng nghyflwyniad PowerPoint Nicola Evans.

1. Dysgu ac argymhellion HARP ynghylch presgripsiynu cymdeithasol

Rolau'r sector cyhoeddus

Mae'r dulliau gwahanol yn lleol o ran presgripsiynu cymdeithasol ledled Cymru yn caniatáu i bobl a darparwyr lleol arwain. Serch hynny, gall yr amrywiaeth enfawr a'r lluo o ddulliau y mae eich model yn eu cydnabod fod yn heriol iawn i sefydliadau celfyddydol ac ymarferwyr ymdrin â nhw, ac mae gan rai ardaloedd yng Nghymru ddarpariaeth well o lawer a mwy o eglurder nag ardaloedd eraill. Rydyn ni'n gweld gwahaniaeth rhwng prosiectau 'Cyffredinol' sy'n cefnogi lles cyffredinol ac iechyd meddwl, yr ymddengys eu bod yn gweithio'n well ochr yn ochr ag awdurdodau lleol a chymdeithasau gwirfoddol, ac mae prosiectau celfyddydol 'penodol' a anelir at bobl â chyflwr penodol neu y mae angen triniaeth benodol arnyn nhw yn fwy cydnaws â'r byrddau iechyd.

- **Argymhelliad:** Mae'n rhaid i ymarferwyr/sefydliadau celfyddydol wybod pwy ddylai fod yn atgyfeirio pobl at eu prosiectau. Byddai o fudd mawr iddyn nhw - ac felly'r boblogaeth - pe bai Llywodraeth Cymru yn diffinio'n well y rolau sydd gan sefydliadau gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol mewn perthynas â phresgripsiynu cymdeithasol.
- **Argymhelliad:** ystyried [model 'Gofal Fesul Cam' IAPT](#) a ddefnyddir yn Lloegr i ddangos hierarchaeth o anghenion a phwyntiau mynediad ar gyfer cymorth iechyd meddwl. Bydd hyn yn eich cynorthwyo pan fyddwch chi'n mapio cynigion o ran presgripsiynu cymdeithasol sy'n 'holistaidd ysgafn' ond mae'n eglurach o lawer am lwybrau a chyfrifoldebau. Er bod model IAPT yn ymwneud â darpariaeth iechyd meddwl yn unig, gellid ailaddasu hyn o amgylch nodau a rolau presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru o ran iechyd y boblogaeth (beth bynnag y bo).



Adnoddau


Un o brif amcanion cysylltwyr cymunedol / presgripsiynwyr cymdeithasol yw cysylltu â phrosiectau y maen nhw'n gallu dibynnu arny'n nhw i gael eu cynnal yn y tymor hir. Mae cysylltu pobl â gweithgareddau celfyddydol hefyd yn cymryd amser, ac nid oes gan staff iechyd a gofal yr amser bob amser i wneud hyn. Yn achos nifer o brosiectau HARP mae cysylltwyr cymunedol yn ymuno â phrosiectau yng nghwmni pobl, yn datrys anghenion technoleg ar gyfer prosiectau ar-lein ac yn helpu i feithrin hyder pobl i ymuno, tra bod rhai eraill yn dweud na all cysylltwyr cymunedol wneud mwy na rhoi rhif ffôn i bobl ei ffonio.

- **Argymhelliad:** Er mwyn i bresgripsiynu cymdeithasol fod â manteision hirdymor i bobl a lleihau'r pwysau ar systemau, mae'n rhaid wrth ddigon o gysylltwyr cymunedol neu bresgripsiynwyr cymdeithasol i ateb y galw.
- **Argymhelliad:** Ar y cyd â chyllid ar gyfer timau cysylltu cymunedol a phresgripsiynu cymdeithasol, byddai'n gymorth mawr pe bai cyllid craidd hirdymor dibynadwy ar gael i gynnal grwpiau cymunedol yn y tymor hwy a'u gwneud yn bartneriaid atgyfeirio mwy dibynadwy.
- **Argymhelliad:** Dylid cefnogi awdurdodau lleol a/neu fyrdau iechyd i adnabod prosiectau cymunedol allweddol a'u hariannu yn y tymor hir er mwyn sicrhau gwasanaeth cyson i gleifion.
- **Argymhelliad:** Gallai'r sector elwa o gael rhai pwyntiau cydgysylltu a rhwydweithio canolog a chenedlaethol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a thystiolaeth genedlaethol, yn ogystal â chynnig lle i ddarparwyr celfyddydau ac iechyd i'w helpu i wybod pwy y dylen nhw gysylltu â nhw yn eu hardal leol eu hun. Mae hyn yn wahanol i waith [Canolfan Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru](#) sy'n canolbwyntio ar ddatblygu seiliau'r dystiolaeth.

Y newidiadau diwylliannol a gweinyddol

Er mwyn i bresgripsiynu cymdeithasol lwyddo, mae'n rhaid i lawer o weithwyr iechyd a gofal proffesiynol newid yn weinyddol, yn athronyddol ac o ran logisteg. Mae hyn yn arbennig o wir am brosiectau celfyddydol. Mae meithrin y farn y gall gweithgareddau creadigol atal neu helpu i reoli afiechyd yn cymylu'r ffiniau sy'n gysylltiedig â systemau iechyd a gofal. Mae hyn yn arwain at heriau i weithwyr iechyd proffesiynol, megis creu llwybrau atgyfeirio diogel i weithgareddau celfyddydol a fel arall, gan wybod pa weithgareddau fydd o fudd i bobl ar ba adeg, ac ymddiried bod gan ymarferwyr y celfyddydau yr offer i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Credwn fod angen datblygu seiliau'r dystiolaeth ar gyfer y celfyddydau a phresgripsiynu cymdeithasol hefyd er mwyn i bartneriaid iechyd ei ystyried yn beth hyfyw a gwerth chweil i fuddsoddi amser ynddo.

- **Argymhelliad:** hyfforddiant a chymorth i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol ar ddechrau un eu gyrfa ac ar ei hyd, a hynny er mwyn eu helpu i ddeall manteision y celfyddydau a phresgripsiynu cymdeithasol. Dylai hyfforddiant hefyd eu helpu i ddysgu'r mecanweithiau a'r prosesau y mae'n rhaid iddyn nhw eu dilyn i gefnogi eu cleifion i ddod o hyd i'r prosiectau celfyddydol a chymunedol gorau a'u defnyddio'n ddiogel.



- **Argymhelliad:** hyfforddiant a chymorth i gysylltwyr cymunedol ac ymarferwyr celfyddydol - i ymgysylltu'n ddiogel â phobl sy'n agored i niwed yn eu cymunedau (e.e. hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl).
- **Argymhelliad:** ystyried posibilrwydd cynllun achredu presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer ymarferwyr y celfyddydau cymunedol.
- **Argymhelliad:** Byddai set glir o nodau ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru a buddsoddi mewn tîm mesur canolog yn helpu prosiectau celfyddydol i fesur eu heffaith yn well yn y meysydd cywir.